

Canllawiau ynghylch gofynion ieithyddol cofrestru

Hydref 2017

Amdanom ni

- 1 Mae CNB yn bodoli er mwyn diogelu'r cyhoedd trwy reoleiddio nyrsys a bydwagedd yn y DU. Rydym yn pennu safonau addysg, hyfforddiant, arfer ac ymddygiad fel bod modd i nyrsys a bydwagedd ddarparu gofal iechyd o ansawdd uchel trwy gydol eu gyrfaeodd.
- 2 Rydym yn cadw cofrestr o nyrsys a bydwagedd sy'n bodloni'r safonau hyn, ac mae gennym brosesau eglur a thryloyw er mwyn ymchwilio i nyrsys a bydwagedd nad ydynt yn llwyddo i fodloni ein safonau.

Cyflwyniad

- 3 Mae nyrsys a bydwagedd yn cyflawni rôl hanfodol wrth ddarparu gofal iechyd yn y DU. Fel nyrs neu fydwraig gofrestredig, eich cyfrifoldeb chi yw rhoi'r pwys mwyaf ar ddiogelwch a lles y rhai yn eich gofal. Mae cyfathrebu yn rhan allweddol o hyn, ynghyd â'r angen i chi fod yn gallu cyfathrebu mewn ffordd glir ac effeithiol yn Saesneg.
- 4 Er mwyn cofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (CNB), rhaid i chi ein bodloni ni eich bod yn meddu ar y sgiliau Saesneg angenrheidiol.¹ Mae hyn yn golygu 'sgiliau Saesneg sy'n angenrheidiol er mwyn gwneud gwaith nyrsio neu fydwreigiaeth mewn ffordd ddiogel ac effeithiol yn y Deyrnas Unedig'.²
- 5 Mae Erthygl 5A (1) Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 ('y Gorchymyn') yn mynnu bod y Cyngor yn cyhoeddi canllawiau am y sgiliau Saesneg angenrheidiol ar gyfer yr holl nyrsys a bydwagedd. Rhaid i'r canllawiau nodi'r dystiolaeth, y wybodaeth a'r dogfennau y mae'n rhaid i ymgeisydd eu darparu er mwyn bodloni ein Cofrestrydd eu bod yn meddu ar y sgiliau Saesneg angenrheidiol, a'r broses y bydd y Cofrestrydd yn ei dilyn er mwyn asesu'r dystiolaeth, y wybodaeth neu'r ddogfennaeth hon.
- 6 Mae gofyn i'r Cofrestrydd ystyried y canllawiau a gyhoeddwyd dan Erthygl 5A (1) y Gorchymyn wrth benderfynu a yw ymgeisydd yn meddu ar y sgiliau Saesneg angenrheidiol.³
- 7 Y ddogfen hon yw'r canllawiau a gyhoeddwyd dan Erthygl 5A (A) y Gorchymyn, a ddefnyddir gan y Cofrestrydd wrth benderfynu a yw nyrs neu fydwraig yn meddu ar y sgiliau Saesneg angenrheidiol. Rydym wedi ymgynghori am y canllawiau hyn yn

¹ Erthygl 9(2)(ba) y Gorchymyn

² Atodlen 4 y Gorchymyn

³ Erthygl 5A(2) y Gorchymyn

unol ag Erthygl 3(14) y Gorchymyn.

- 8 Mae'r canllawiau hyn yn darparu manylion y gofynion Saesneg er mwyn cofrestru. Mae'r canllawiau'n darparu gwybodaeth am y ffordd y mae modd i chi ddangos eich bod yn meddu ar y sgiliau Saesneg angenrheidiol wrth wneud cais i ymuno neu ail-ymuno â'r gofrestr. Mae modd gweld gwybodaeth ynghylch sut i wneud cais i ymuno neu ail-ymuno yma:
 - 8.1 [I ymgeiswyr sydd wedi cwblhau rhaglen nyrsio neu fydwreigiaeth cyn-gofrestru yn y DU](#)
 - 8.2 [I ymgeiswyr sydd wedi hyfforddi yn UE/AEE](#)
 - 8.3 [I ymgeiswyr sydd wedi hyfforddi y tu allan i UE/AEE](#)
 - 8.4 [I ymgeiswyr sy'n dymuno ail-ymuno â'r gofrestr](#)
- 9 Drafftwyd y canllawiau hyn yn unol â pholisi'r Cyngor ynghylch yr iaith Saesneg.

Tystiolaeth i'w darparu

- 10 Ceir gwahanol ffyrdd y bydd modd i chi ddangos eich bod yn meddu ar y sgiliau Saesneg angenrheidiol er mwyn gweithio yn y DU. Yn y canllawiau hyn, rydym wedi nodi'r mathau o dystiolaeth y byddwn ni yn eu derbyn fel rhai sy'n dangos eich bod yn meddu ar y sgiliau Saesneg angenrheidiol er mwyn gweithio yn y DU.
- 11 Os oes modd i chi ddarparu un o'r mathau canlynol o dystiolaeth a restrir, byddwch yn bodloni ein gofynion ynghylch cymhwysedd o ran eich sgiliau Saesneg.
 - 11.1 Yn ddiweddar,⁴ rydych chi wedi sicrhau'r sgôr ofynnol mewn IELTS neu mewn un o'r profion Saesneg eraill a dderbynnir gan CNB. Rhaid i chi sicrhau'r sgôr ofynnol yn y pedwar maes, sef darllen, ysgrifennu, gwranddo a siarad.
 - 11.2 Rhaglen nyrsio neu fydwreigiaeth cyn-gofrestru a gynhaliwyd yn ddiweddar ac a addysgwyd ac a arholwyd yn Saesneg mewn gwlad lle y gwelir mai Saesneg yw'r iaith gyntaf a'r iaith frodorol.⁵
 - 11.3 Cofrestru gyda rheolydd nyrsio neu fydwreigiaeth ac un flwyddyn o wneud gwaith cofrestredig mewn gwlad lle y gwelir mai Saesneg yw'r iaith gyntaf a'r iaith frodorol

⁴ Pan fyddwn yn dweud 'yn ddiweddar', rydym yn golygu dystiolaeth sy'n ymwneud â Chymhwysedd mewn Saesneg o fewn y ddwy flynedd ddiwethaf ar yr adeg pan wneir cais i CNB. Mae British Council yn cynghori mai dwy flynedd yw'r cyfnod derbynol i unigolyn barhau i fod yn rhugl yn Saesneg os defnyddir yr iaith yn rheolaidd. Bydd rhuglder yn Saesneg yn dirywio ar ôl dwy flynedd os na chaiff ei defnyddio'n rheolaidd

⁵ Rydym yn defnyddio rhestr Asiantaeth Ffiniau'r DU o 'wledydd lle y siaradir Saesneg yn bennaf' (www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/340583/English_language_v11.0_EXT.pdf). Rydym yn cynnal ac yn diweddarau ein rhestr yn rheolaidd. O gael ein hysbysu mai Saesneg yw iaith gyntaf ac iaith frodorol gwlad, byddwn yn cysylltu â'r Weinidogaeth Iechyd a'r rheolydd nyrsio a bydwreigiaeth perthnasol er mwyn ceisio dystiolaeth o hyn.

Mathau o dystiolaeth y byddwn yn eu derbyn

Math 1 o dystiolaeth: Yn ddiweddar, rydych chi wedi sicrhau'r sgôr ofynnol yn IELTS neu mewn un o'r profion Saesneg eraill a dderbynnir gan CNB. Rhaid i chi sicrhau'r sgôr ofynnol yn y pedwar maes gofynnol sef darllen, ysgrifennu, gwrando a siarad

- 12 Byddwn yn derbyn sgôr gyffredinol o 7 a sicrhawyd yn ddiweddar yn y fersiwn academaidd o'r System Profi Saesneg Ryngwladol (IELTS). Rhaid i chi sicrhau sgôr heb fod yn llai na 7 yn y pedwar maes, sef darllen, ysgrifennu, gwrando a siarad.
- 13 Pan fyddwn yn dweud 'yn ddiweddar', rydym yn golygu tystiolaeth sy'n ymwneud â chymhwysedd mewn Saesneg o fewn y ddwy flynedd ddiwethaf ar yr adeg pan wneir cais i CNB. Mae British Council yn cynghori mai dwy flynedd yw'r cyfnod derbyniol i unigolyn barhau i fod yn rhugl yn Saesneg os defnyddir yr iaith yn rheolaidd. Bydd rhuglder yn Saesneg yn dirywio ar ôl dwy flynedd os na chaiff ei defnyddio'n rheolaidd.
- 14 Mae modd i chi ddarparu dwy dystysgrif o brofion IELTS er mwyn bodloni'r gofynion uchod, ond ni ddylech fod wedi sgorio llai na 6.5 mewn unrhyw gategori, wrth sefyll y prawf y naill gwaith neu'r llall. Dylid fod wedi sefyll y prawf o fewn chwe mis i'w gilydd er mwyn i'r rhain gael eu hystyried.
- 15 Gallwn dderbyn profion Saesneg eraill sy'n bodloni'r meini prawf canlynol:
 - 15.1 Mae'n profi sgiliau Saesneg mewn cyd-destun gofal iechyd neu academaidd. Ni ddylai fod yn brawf ar lefel gyffredinol.
 - 15.2 Mae'n profi'r pedwar maes (darllen, ysgrifennu, siarad a gwrando).
 - 15.3 Profir yr elfen siarad wyneb yn wyneb ac nid trwy gyfrwng prawf cyfrifiadurol
 - 15.4 Ceir gweithdrefnau diogelwch uchel er mwyn paratoi a chynnal y prawf.
 - 15.5 Ceir systemau cadarnhau sgôr profion sy'n caniatáu i CNB gadarnhau'r canlyniadau.
 - 15.6 Ceir tystiolaeth briodol o ddibynadwyedd y prawf a dibynadwyedd ei sgoriau.
 - 15.7 Ceir tystiolaeth o'r ffaith bod canolfannau profi ar gael yn eang.
- 16 Os ydych yn dibynnu ar brawf arall, dylai'r sgôr a gaiff ei sicrhau gyfateb â sicrhau sgôr gyffredinol o 7 yn y fersiwn academaidd o IELTS. Ni ddylech gyflawni llai na'r hyn sy'n cyfateb â sgôr academaidd IELTS o 7.0 ym mhob maes, sef darllen, ysgrifennu, gwrando a siarad.
- 17 Am restr o'r profion yr ydym yn eu derbyn ar hyn o bryd, trowch at ein tudalen ar y we
- 18 Efallai y byddwn yn derbyn canlyniadau profion a gynhaliwyd dros ddwy flynedd yn ôl os oes modd i chi ddarparu tystiolaeth sy'n dangos nad yw'ch sgiliau ieithyddol wedi dirywio ers y cyfnod hwnnw.

Math 2 o dystiolaeth: Rhaglen nyrsio neu fydwreigiaeth cyn-gofrestru a ddilynwyd yn ddiweddar, a addysgwyd ac a arholwyd yn Saesneg.

19 Os ydych chi wedi cwblhau rhaglen nyrsio neu fydwreigiaeth cyn-gofrestru a gymeradwywyd gan CNB mewn sefydliad addysgol a gymeradwywyd gan CNB, bydd modd i chi fodloni'r Cofrestrydd eich bod yn meddu ar y sgiliau Saesneg angenrheidiol.

20 Os ydych yn ceisio dibynnu ar raglen nyrsio neu fydwreigiaeth cyn-gofrestru a addysgwyd ac a arholwyd yn Saesneg, bydd y canlynol yn berthnasol:

20.1 Rhaid bod y cwrs wedi cynnwys o leiaf 50 y cant o ryngweithio clinigol. Rhaid bod o leiaf 75 y cant o weithgarwch rhyngweithio y cwrs gyda chleifion, defnyddwyr gwasanaeth, eu teuluoedd a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill fod wedi digwydd yn Saesneg.

20.2 Mae angen i ni sicrhau bod yr hyfforddiant a gwblhawyd gennych wedi cynnig cyfle i chi ddangos gallu ym maes darllen, ysgrifennu, siarad a gwrando mewn amrediad o amgylcheddau. Efallai y byddwn yn gofyn i chi ddarparu tystiolaeth bellach i ddangos i ni eich bod yn ein bodloni ni eich bod yn meddu ar y sgiliau Saesneg angenrheidiol, er enghraifft trawsgrifiad gan y brifysgol neu'r Sefydliad Addysg Uwch (SAU) lle y cwblhachoch eich cwrs yn nodi manylion cynnwys yr hyfforddiant, gan gynnwys sut y sicrhawyd y rhyngweithio clinigol yn Saesneg.

Math 3 o dystiolaeth: Cofrestru a blwyddyn o waith gyda rheolydd nyrsio neu fydwreigiaeth mewn gwlad lle y gwelir mai Saesneg yw'r iaith gyntaf a'r iaith frodorol⁶ a lle'r oedd gofyn cael asesiad iaith er mwyn cofrestru.

21 Byddwn yn gofyn am wybodaeth bellach am yr arholiad neu'r asesiad iaith a gwblhawyd gennych.

22 Efallai y byddwn yn gofyn am eirida cyflogaeth gan bob cyflogwr a fu gennych, a fydd yn cadarnhau eich bod wedi gweithio trwy gyfrwng y Saesneg.

Tystiolaeth bellach

23 Os na fyddwn yn fodlon eich bod yn meddu ar y sgiliau Saesneg angenrheidiol, efallai y byddwn yn gofyn am dystiolaeth, gwybodaeth neu ddogfennau pellach.⁷

24 Yn ogystal, efallai y byddwn yn gofyn i chi gwblhau arholiad neu asesiad, a darparu tystiolaeth o'r ffaith eich bod wedi gwneud hynny.⁸

25 Os ydych yn nyrs neu'n fydwraig sydd wedi cael hyfforddiant yn UE/AEE ac sy'n dymuno ymuno â'r gofrestr, ni fyddwn yn gofyn am wybodaeth bellach nes bydd eich cymhwyster wedi cael ei gydnabod. Fodd bynnag, argymhellwn eich bod yn darparu tystiolaeth o'r ffaith eich bod yn bodloni'r gofyniad ynghylch sgiliau Saesneg mor gynnar ag y bo modd er mwyn caniatáu i'ch cais gael ei brosesu'n gyflymach.

26 Er mwyn cyflawni ein rhwymedigaethau dan Gyfarwyddeb UE 2005/36/EC, bydd modd i nyrsys a bydwagedd o UE/AEE gyflwyno tystiolaeth arall fel dewisiadau amgen i'r mathau o dystiolaeth uchod.

⁶ Rydym yn defnyddio rhestr Asiantaeth Ffiniau'r DU o 'wledydd lle y siaradir Saesneg yn bennaf' (www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/340583/English_language_v11.0_EXT.pdf). Rydym yn cynnal ac yn diweddarau ein rhestr yn rheolaidd. O gael ein hysbysu mai Saesneg yw iaith gyntaf ac iaith frodorol gwlad, byddwn yn cysylltu â'r Weinidogaeth Iechyd a'r rheolydd nyrsio a bydwreigiaeth perthnasol er mwyn ceisio tystiolaeth o hyn.

⁷ Erthygl 5(4) y Gorchymyn

⁸ Erthygl 5(6) y Gorchymyn

Meini prawf er mwyn asesu tystiolaeth

- 27 Isod, nodir y meini prawf y bydd y Cofrestrydd yn eu defnyddio er mwyn asesu tystiolaeth a gwybodaeth mewn perthynas â sgiliau Saesneg. Maent yn adlewyrchu ein hamcan o ddiogelu'r cyhoedd⁹ a byddant yn cynnig sicrwydd digonol i ni eich bod yn meddu ar y sgiliau Saesneg angenrheidiol cyn y bydd modd i ni eich cofrestru.
- 28 Rhaid i chi ddangos cymhwysedd yn y pedwar maes canlynol:
- 28.1 darllen
 - 28.2 ysgrifennu
 - 28.3 gwranddo, a
 - 28.4 siarad.
- 29 Byddwn yn ystyried y dystiolaeth y byddwn yn ei chael yn erbyn y meini prawf canlynol:
- 29.1 a yw'r dystiolaeth yn dystiolaeth ddiweddar, gwrthrychol ac annibynnol
 - 29.2 a yw'n dangos mewn ffordd eglur eich bod yn gallu darllen, ysgrifennu, cyfathrebu a rhyngweithio gyda chleifion, defnyddwyr gwasanaeth, perthnasau a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol mewn ffordd effeithiol yn Saesneg, ac
 - 29.3 a oes modd i ni gadarnhau'r dystiolaeth yn hawdd.
- 30 Os na fyddwch yn darparu tystiolaeth a gwybodaeth bellach sy'n bodloni ein gofynion mewn perthynas â sgiliau Saesneg, gofynnir i chi basio arholiad neu asesiad Saesneg, gan ddarparu tystiolaeth o'r ffaith eich bod wedi gwneud hynny.

Ail-ymuno

- 31 Os ydych yn gwneud cais i ail-ymuno â'r gofrestr, bydd angen i chi ddangos eich bod yn meddu ar y sgiliau Saesneg angenrheidiol er mwyn gwneud gwaith diogel ac effeithiol a defnyddir y meini prawf canlynol ychwanegol:
- 31.1 hyd y cyfnod sydd wedi mynd heibio ers i chi weithio yn y DU ddiwethaf
 - 31.2 a ydych chi wedi cwblhau'ch hyfforddiant nyrsio neu fydwreigiaeth mewn amgylchedd lle y siaradir Saesneg
 - 31.3 a ydych chi wedi gweithio fel nyrs neu fydwraig mewn amgylchedd lle y siaradir Saesneg
 - 31.4 a ydych chi wedi dangos cymhwysedd yn flaenorol o ran eich sgiliau Saesneg yn eich cais cofrestru cychwynol, a
 - 31.5 gwybodaeth arall a allai fod yn briodol.

⁹ Erthygl 3(4) y Gorchymyn

32 Byddwn yn derbyn y mathau canlynol o dystiolaeth:

32.1 os wnaethoch chi gwblhau'ch hyfforddiant nyrsio neu fydwreigiaeth cyn-gofrestru ar raglen neu gwrs a gymeradwywyd gan CNB ac mewn sefydliad addysg a gymeradwywyd gan CNB

32.2 os ydych chi wedi bodloni'r gofynion ynghylch gweithio sef naill ai 750¹⁰ awr yn ystod y bum mlynedd ddiwethaf neu 450¹¹ awr yn ystod y dair blynedd ddiwethaf. Os ydych chi wedi cwblhau'ch hyfforddiant nyrsio neu fydwreigiaeth cyn-gofrestru y tu allan i'r DU ac ni chwblhawyd yr oriau gwaith y dibynnir arnynt yn y DU neu mewn gwlad lle y gwelir mai Saesneg yw'r iaith gyntaf a'r iaith frodorol, ni fydd hyn yn bodloni'r Cofrestrydd eu bod yn meddu ar y sgiliau Saesneg angenrheidiol

32.3 os ydych chi wedi dilyn a chwblhau rhaglen dychwelyd i weithio yn llwyddiannus

32.4 cwblhau prawf Saesneg yn llwyddiannus, a gymeradwywyd gan CNB er mwyn cael eich cofrestru ar y gofrestr.

Yr hawl i apelio

33 Os gofynnir i chi sefyll asesiad neu arholiad Saesneg, efallai y bydd modd i chi apelio yn erbyn y penderfyniad hwn i Banel Apêl Cofrestru.¹²

Addasrwydd i weithio

34 Ar ôl i chi gael eich cynnwys ar y gofrestr, rhaid i chi arddel y safonau proffesiynol a nodir yn *Y Cod: Ymddygiad a safonau arfer proffesiynol ar gyfer nyrsys a bydwagedd* (y Cod).

35 Mae paragraff 7.5 y Cod yn nodi bod yn rhaid eich bod yn 'gallu cyfathrebu mewn ffordd glir ac effeithiol yn Saesneg'.

36 Os byddwn yn cael pryder nad ydych yn meddu ar y sgiliau Saesneg angenrheidiol ar ôl i chi ymuno â'n cofrestr,¹³ efallai y byddwch yn destun ymchwiliad addasrwydd i weithio.

¹⁰ Rheol 3(4)(b) y Rheolau Cofrestru

¹¹ Rheol 3(4)(c) y Rheolau Cofrestru

¹² Erthygl 37(1)(za) y Gorchymyn

¹³ Erthygl 22(1)(a)(iva)